







# Rhaglen Wirfoddoli Cyn-fyfyrwyr (RhWC)
# Alumni Volunteering Programme (AVP)

## Nid yw eich perthynas ag Aber yn dod i ben ar ôl graddio

Mae ein cyn-fyfyrwyr yn chwarae rhan bwysig wrth gyfrannu at lwyddiant parhaus y Brifysgol trwy wirfoddoli a rhoi.

Mae yna gyfleoedd amrywiol i chi gymryd rhan ynddynt a gwneud gwahaniaeth. Gwirfoddolwch gyda ni i rannu eich arbenigedd, ysbrydoli myfyrwyr, a ffurfio dyfodol y Brifysgol.

## Your relationship with Aber doesn't end at graduation

Our alumni play an important role in contributing to the continued success of the University through volunteering and giving.

There are various opportunities for you to get involved and make a difference. Volunteer with us to share your expertise, inspire students, and shape the University's future.

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Cyn-fyfyrwyr (DARO)
Development and Alumni Relations Office (DARO)

alumni@aber.ac.uk

# Cyflwyno'r RhWC
# Introducing the AVP

Sefydlwyd Prifysgol Aberystwyth ar gyfer pobl Cymru ac mae'n parhau i ffynnu gyda chefnogaeth ein cymuned o gyn-fyfyrwyr ffyddlon. Bydd eich parodrwydd i rannu eich amser a'ch arbenigedd yn cyfoethogi profiad ein myfyrwyr yn ogystal â'n helpu ni i gyflawni amcanion strategol y Brifysgol.

Hwylusir y rhaglen hon gan y Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Cyn-fyfyrwyr ochr yn ochr ag adrannau eraill ar draws y Brifysgol. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu'r adnoddau i sicrhau bod eich cyfraniad gwirfoddol yn gadanhaol, boddhaol a phwrpasol i chi ac i'r Brifysgol.

Aberystwyth University was founded for the people of Wales and continues to thrive with the support of our loyal alumni community. Your willingness to share your time and expertise will enhance our student experience as well as help us achieve the University's strategic objectives.

This programme is facilitated by the Development and Alumni Relations Office alongside other departments across the University. We are committed to providing you with the tools for positive, rewarding and purposeful engagement with the University, to ensure your voluntary contribution is worthwhile.

## Ein nod yw...

**I greu cysylltiadau ystyrlon rhwng ein cyn-fyfyrwyr a'n myfyrwyr**

**I annog myfyrwyr i ddysgu a thyfu gyda'n cymuned o gyn-fyfyrwyr**

**I wella gwaith a phroffil y Brifysgol**

**I weithio mewn partneriaeth â'n cyn-fyfyrwyr**

## We aim...

**To build meaningful connections between our alumni and our students**

**To encourage students to learn and grow with our alumni community**

**To enhance the work and profile of the University**

**To work in partnership with our alumni**

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Cyn-fyfyrwyr (DARO)
Development and Alumni Relations Office (DARO)

**alumni@aber.ac.uk**

# Ceinciau'r RhWC
# Strands of the AVP

**MentoriaidAber**
**AberMentors**

Gweithio gyda myfyrwyr yn unigol, gan gynnig cyngor ac arweiniad arbenigol iddynt trwy'r cynllun fentora neu drwy cynnig lleoliad gwaith haf i fyfyrwyr.

Working with a student(s) 1-2-1, offering them bespoke advice and guidance through our mentoring scheme or through offering a summer placement opportunity.

**CyflwyniadauAber**
**AberPresents**

Cymryd rhan mewn digwyddiadau ar gyfer myfyrwyr a/neu gyn-fyfyrwyr drwy roi cyflwyniad, gweithdy neu fel aelod o banel.

Participating at student and/or alumni events, delivering a presentation, workshop or as a panel member participant.

**HyrwyddwyrAber**
**AberChampions**

Hyrwyddo'r Brifysgol yn ystod digwyddiadau denu myfyrwyr (yma yn Aber neu'n rhyngwladol) neu drwy broffil ysgrifenedig / ar fideo.

Championing the promotion of the University during recruitment events (at Aber or internationally) or through a written / filmed profile.

**PartneriaidAber**
**AberPartners**

Ymgynghorwyr penodedig i'r Brifysgol, sy'n gweithio gyda ni mewn partneriaeth i ddatblygu nodau strategol i adrannau yn ogystal ag i'r Brifysgol gyfan.

Appointed advisers to the University, working with us in partnership to develop departmental as well as University-wide strategic goals.



alumni@aber.ac.uk

# MentoriaidAber
# AberMentors



Rhaglen mentora gyrfa yw MentoriaidAber sy’n paru gweithwyr proffesiynol sydd efo profiad o weithio mewn diwydiant â myfyrwyr presennol Prifysgol Aberystwyth. Mae’n rhoi cyfle gwerthfawr i fyfyrwyr gael cipolwg ar fyd gwaith, ac i fentoriaid rannu eu gwybodaeth am y sector a’u profiad byw.

Bydd ein mentoriaid yn gallu cwrdd â'n myfyrwyr ar-lein neu'n bersonol, sy'n golygu y gall gwirfoddolwyr gymryd rhan yn fyd-eang. Rhoddir arweiniad a cyswllt rheolaidd i bawb sy'n cymryd rhan yn y gainc hon.

AberMentors is the career mentoring programme that matches professionals who have experience in working in industry, with current Aberystwyth University students. It provides a valuable opportunity for students to gain an insight into the world of work, and for mentors to share their sector knowledge and lived experience.

Our mentors will be able to meet our students virtually or in person, which means volunteers can get involved globally. Guidance and regular check-ins will be provided to all participants involved in this strand.

## Pam bod yn FentorAber?

- Darparu cyngor, cefnogaeth a’ch profiad personol o'ch sector i un (neu fwy) o'n myfyrwyr.
- Gwneud cysylltiad ystyrlon â myfyrwyr unigol a bod yn rhan o ddatblygiad ein cenhedlaeth nesaf o gyn-fyfyrwyr.
- Cyfle i rannu eich sgiliau gyda'n myfyrwyr a helpu gyda'u datblygiad personol eu hunain.
- Cyfoethogi’ch sgiliau’ch hun o ran cyfathrebu, gwrando’n astud a meithrin perthynas.

## Why become an AberMentor?

- To provide one (or more) of our students with advice, support and lived experience of your sector.
- Make a meaningful connection with individual students and be part of the development of our next generation of alumni.
- An opportunity to share your skills with our students and help with their own personal development.
- Enhance your own communication, active listening and relationship-building skills.

**Ydych chi'n gallu cynnig lleoliad gwaith haf i'n myfyrwyr?**

**Gall lleoliadau proffesiynol a rolau ar lefel addas i raddedigion fagu hyder, cynyddu cyflogadwyedd, a ffurfio llwybr gyrfa ein myfyrwyr presennol. Allwch chi neu'ch cwmni gynnig lleoliadau i fyfyrwyr neu rolau ar lefel addas i raddedigion? Os felly, cysylltwch â ni.**

**Are you able to offer a summer placement opportunity for our students?**

**Professional placements and graduate level roles can build confidence, increase employability, and shape the career trajectory of our current students. Can you or your company offer students placements or graduate level roles? If so, please do get in touch.**

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Cyn-fyfyrwyr (DARO)
Development and Alumni Relations Office (DARO)

alumni@aber.ac.uk

# CyflwyniadauAber
# AberPresents



Mae ein cainc CyflywniadauAber yn targedu ein myfyrwyr presennol a'n graddedigion diweddar trwy gynnal digwyddiadau amrywiol wyneb-yn-wyneb ac ar-lein. Rydym eisiau clywed am eich llwyddiannau proffesiynol a phersonol ar ôl graddio, a sut y gwnaeth eich amser yn y Brifysgol ffurfio'r person rydych chi heddiw.

P'un a ydych chi'n gallu cyflwyno'n bersonol, ar-lein neu drwy fideo wedi'i recordio ymlaen llaw, gall eich cyfraniad ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf i ddilyn llwybrau tebyg.

**Sut y gallwch chi gyflwyno**

- **Sgwrs am eich diwydiant**
- **Sgwrs am eich gyrfa**
- **Gweithdy**
- **Aelod o banel**
- **Gwneud fideo i'w ddangos yn ystod darlith neu wers**

Our AberPresents strand targets our current student and recent graduate population through various in-person and online events. We want to hear of your professional and personal successes after graduation, and how your time at University shaped the person you are today.

Whether you are able to present in person, virtually or via a pre-recorded video, your contribution can inspire the next generation to follow similar pathways.

**How you can present**

- **Industry talk**
- **Career talk**
- **Workshop**
- **Panel member**
- **Create a video to show during a lecture or seminar**

## Pam bod yn GyflwynyddAber?

- Mae'n galluogi myfyrwyr i weld budd eu gradd ac opsiynau o ran yr hyn y gallant ei wneud yn eu maes diddordeb.
- Yn rhoi astudiaethau achos go iawn sy'n darparu cyd-destun go iawn sy'n berthnasol i bwnc y radd.
- Yn ysbrydoli ein myfyrwyr i gadw mewn cysylltiad a chymryd rhan eu hunain ym mywyd y Brifysgol ar ôl iddynt raddio.
- Cyfle i chi ailgysylltu ag aelodau staff y Brifysgol ac arddangos yr hyn rydych chi wedi'i gyflawni ers graddio.

## Why become an AberPresenter?

- Allows students to see the benefits of their degree and explore options in their area of interest.
- Provides real-life case studies that offer context related to the degree subject.
- Inspires our students to stay connected and get involved with the University after graduation.
- Offers an opportunity for you to reconnect with University staff and showcase your achievements since graduating.



Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Cyn-fyfyrwyr (DARO)
Development and Alumni Relations Office (DARO)

alumni@aber.ac.uk

# HyrwyddwyrAber
# AberChampions



Mae HyrwyddwyrAber yn gwirfoddoli eu hamser i ysbrydoli darpar fyfyrwyr sy'n ystyried astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Gall ein Hyrwyddwyr gynnig cipolwg ar profiad eu hunain yn astudio yn Aberystwyth a chynnig cyngor ar bynciau fel addasu i fywyd yn y Brifysgol a llwybrau gyrfa yn y dyfodol. Bydd Hyrwyddwyr yn cael eu gwahodd i wirfoddoli yn ystod Diwrnodau Agored, Digwyddiadau i Ymgeiswyr a Ffeiriau Gyrfaoedd; unai mewn person neu ar-lein.

Gallwch hefyd wneud gwahaniaeth trwy ysgrifennu proffil cyn-fyfyrwyr i ni ei gynnwys ar ein gwefan, neu hyd yn oed fideo i'w ddangos yn ystod digwyddiadau ac ar ddeunyddiau marchnata.

AberChampions volunteer their time to inspire prospective students who are considering studying at Aberystwyth University.

Our Champions can offer insights from their own experience studying at Aberystwyth and offer advice on topics like adjusting to life at University and future career pathways. Champions will be invited to volunteer during Open Days, Offer-Holder Events and Recruitment Fairs; either in person or online.

You can also make a difference by writing an alumni profile for us to feature on our website or even a video to showcase during events and on marketing materials.

**Ysbrydolwch fyfyrwyr presennol a chyd-raddedigion gyda'ch stori. Rhannwch eich profiadau, eich cyngor, eich taith yrfaol a dywedwch wrthym pa effaith y mae eich amser yn Aber wedi'i chael ar eich bywyd.**

**Inspire current students and fellow graduates with your story. Share your experiences, advice, your career journey and tell us what impact your time at Aber has had on your life.**

## Pam bod yn HyrwyddwrAber?

- Cyfle i chi rannu profiadau ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o fyfyrwyr.
- Cyfle i ailgysylltu â'r Brifysgol, p'un a ydych chi'n gwirfoddoli mewn digwyddiad ar y campws neu yn ystod digwyddiad yn rhywle arall yn y byd!
- Gwella'ch hyder a'ch sgiliau cyfathrebu trwy siarad â gwahanol bobl yn ystod digwyddiadau, neu trwy greu cynnwys marchnata.
- Cyfle i chi fyfyrio a hel atgofion am eich taith eich hun fel myfyriwr.

## Why become an AberChampion?

- An opportunity for you to share experiences and inspire the next generation of students.
- A chance to reconnect with the University, whether you volunteer at an on-campus event or during an event elsewhere in the world!
- Enhance your confidence and communication skills by speaking with different people during events, or through creating marketing content.
- A chance for you to reflect and reminisce about your own student journey.

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Cyn-fyfyrwyr (DARO)
Development and Alumni Relations Office (DARO)

alumni@aber.ac.uk

# PartneriaidAber
# AberPartners

Trwy fanteisio ar y cyfoeth o brofiadau proffesiynol ac arbenigedd sector-benodol o fewn cymuned y cyn-fyfyrwyr, gallwn wella ein ffyrdd o weithio a'r gwasanaethau a ddarperir gan y Brifysgol.

Mae ein cynllun PartneriaidAber yn gyswllt rhwng ein cymuned o gyn-fyfyrwyr a phrosiectau parhaus yn y Brifysgol. Mae ein Partneriaid yn darparu cyngor unigol yn unswydd ar feysydd strategol penodol, ac yn cyflwyno syniadau am feysydd i'w ddatblygu i'r tîm Datblygu a Chysylltiadau Cyn-fyfyrwyr.

**Cyfleoedd Presennol**

- **Ymgynghori Cymunedol**
- **Cydraddoldeb Cysylltedd Digidol**
- **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**
- **Cynllunio Ystadau (cymynroddion)**
- **Cyflwyno Digwyddiadau Proffil Uchel**
- **Meithrin Cyswllt â Graddedigion**
- **Gwirfoddoli**

By tapping into the wealth of professional insights and sector specific expertise within the alumni community, we can enhance the operation and services provided by the University.

Our AberPartner scheme acts as a link between our alumni community and ongoing projects in the University. Our Partners provide advice on a 1:1 ad hoc basis, on specific strategic areas, and present areas of development to the Development and Alumni Relations team.

**Current Opportunities**

- **Community Consultation**
- **Digital Engagement**
- **Equality, Diversity and Inclusion**
- **Estate Planning (legacies)**
- **High Profile Event Delivery**
- **Recent Graduate Engagement**
- **Volunteering**

## Pam bod yn BartnerAber?

- Cydnabyddiaeth o'ch statws fel cyn-fyfyriwr sydd yn ymgynghorydd dibynadwy i'r Brifysgol ar faes penodol.
- Cyfle i lywio'r cyfeiriad gwaith hwn ac incwm y Brifysgol yn y dyfodol.
- Cyfle i rannu eich sgiliau a'ch profiad er budd y Brifysgol.
- Mynediad at gymorth gan y Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Cyn-fyfyrwyr.

## Why become an AberPartner?

- Recognition of being the University's trusted alumni advisor in a specific area.
- An opportunity to shape this direction of work and future income for the University.
- An opportunity to share your skills and experience to the benefit of the University.
- Access to support from the Development and Alumni Relations Office.



Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Cyn-fyfyrwyr (DARO)
Development and Alumni Relations Office (DARO)

alumni@aber.ac.uk

# Rydyn ni eisiau i bawb ar yr RhWC deimlo'n arbennig!

# We want those involved in the AVP to feel like a VIP!

Diolch yn fawr iawn i'n holl Gyn-fyfyrwyr Gwirfoddol am eich cefnogaeth barhaus a'ch teyrngarwch i Brifysgol Aberystwyth. Sut bynnag y byddwch yn dewis rhoi eich amser, rydym yn gobeithio y cewch brofiad gwerth chweil a buddiol yn gwirfoddoli gyda ni.

Thank you very much to all our Alumni Volunteers for your continued support and loyalty to Aberystwyth University. However you choose to give your time, we hope you have a worthwhile and enjoyable experience volunteering with us.

Byddwn yn dathlu effaith ein gwirfoddolwyr trwy lwyfannau ein cyfryngau cymdeithasol ac yn ystod digwyddiadau ymgysylltu â chyn-fyfyrwyr.

Cynlluniwyd y rhaglen i gyfoethogi eich sgiliau proffesiynol a phersonol eich hun fel y gallwch arddangos eich gweithgarwch gwirfoddol ar LinkedIn, CVs neu mewn fforymau eraill.

Bydd gwirfoddoli gyda ni yn eich galluogi i ailgysylltu ag aelodau staff a gwirfoddolwyr eraill o blith ein cyn-fyfyrwyr.

We will be celebrating the impact of our volunteers through our social media channels and during alumni engagement events.

The programme is designed to enhance your own professional and personal skills so you are able to showcase your voluntary activity on LinkedIn, CVs or in other fora.

Volunteering with us will allow you to reconnect with staff members and other alumni volunteers.